

# Mari Ellis yn trafod Humphreys' English-Welsh Letter-writer. Llythyrydd Saesoneg a Chymraeg, H. Humphreys, Caernarfon

Un o lyfrau bach Hugh Humphreys, Caernarfon yw hwn, dyn â'i lygad yn ei ben i weld beth oedd yn werth ei gyhoeddi. Yn y flwyddyn 1837 y sefydlodd Hugh Humphreys ei fusnes argraffu yng Nghaernarfon ac wedi iddo gael ei gefn ato cododd Paternoster Buildings ar y maes. Cyhoeddodd amryw o lyfrau sylweddol ond yn ogystal yr oedd ganddo gyfresi o rai bach, rhatach, cyfres geiniog a chyfres chwe cheiniog. Nid oes dyddiad ar wyneb-ddalen y copi o'r *Llythyrydd* sydd dan sylw, y trydydd argraffiad, ond 1860 sydd uwchben y llythyrau enghreifftiol. Pwrpas y llyfryn oedd dangos, trwy enghreifftiau dychmygol, sut i osod meddyliau ar bapur at wahanol ddibenion.

Dosrennir y llythyrau yn rhai at berthnasau, at gyfeillion, llythyrau caru a rhai masnachol neu fusnes. Mae'r testun ar yr ochr chwith yn Saesneg ac ar yr ochr dde yn Gymraeg; enwau trefi a phentrefi Cymru sydd uwchben y llythyrau.

Cyfieithiad llythrennol o'r Saesneg yw'r testun Cymraeg, fel y cawn weld. Mam o Fangor yn ysgrifennu at ei merch, Elen, sydd i ffwrdd yn yr ysgol ac yn dechrau â'r frawddeg drwsgwl hon:

*Nid wyf mor anghofus o'r tymor yr oeddwn fy hun yn yr ysgol ac i beidio cofio pryder â pha un y disgwyliwn am lythyr oddicartref...*

Mae'n gyrru anrheg iddi, heb ddweud beth ydoedd, yn dweud eu bod fel teulu yn iach a'i bod yn gobeithio clywed oddi wrthi,

*...Diameu gennyf eich bod yn talu y sylw manylaf i'r addysg a weinyddir i chwi...*

Druan o Elen, heb gael clywed dim o beth oedd yn digwydd gartre, na dim 'clecs' bach difyr.

\* \* \*

Ni allwn beidio â meddwl am lythyr mam arall o Aberystwyth at ei merch Eliza, i ffwrdd yn yr ysgol ac yn dathlu ei phen-blwydd yn bedair ar ddeg oed:

*Will you not, my dear child give yourself more entirely unto the Lord than you have ever done*

*before?... I hope every succeeding birthday (if you should live to see many) may witness your increasing devotion to the Lord and preparation for that Eternity, to which you and I are fast hastening...*

Ond fe gafodd wybod pwy oedd yn mynd i briodi a phwy a gafodd fabi a phwy oedd yn dioddef o'r pas.

O Bwllheli y daw llythyr tad at ei fab wedi iddo adael cartref am y tro cyntaf. Bu i ffwrdd ers pythefnos heb ysgrifennu adre, felly dyry'r tad gyfarwyddyd iddo,

*...peidiwch a dechrau pob llinell â phrif lythren gan nad yw hynny briodol wrth ysgrifennu dim ond prydyddiaeth...*

a chrybwyller pethau hanfodol megis cyfeiriad a dyddiad,

*...yn y cwr uchaf ar y llaw ddeheu neu yn y gwaelod ar y llaw aswy... sillafu cywir ac atalnodi.*

\* \* \*

Yn y llythyr a ysgrifennodd bachgen o Gaernarfon at ei chwacwr yn yr ysgol, digwydd y frawddeg anhygoel hon yng nghanol y llythyr,

*...annwyl chwaer, anfonais i chwi, fel arwydd o'm cariad tuag atoch sydyn o lyfrau, ac yn amgauedig cewch benadur i'w wario mewn unrhyw fodd a ddymunwch...*

(Bu raid i mi edrych ar y Saesneg i weld beth oedd penadur; *sovereign* sydd yno. Mae i'w gael yng Ngeiriadur Bruce!)

\* \* \*

Llythyr arall gan ŵr ifanc o Nefyn ar gychwyn i Llynlleifiad, at gyfaill,

*...teimlwn awydd am eich gweled...*

\* \* \*

Merch o forwyn yn ysgrifennu at ei chyfeilles

*...Gobeithiaf y byddwch chwithau yn alluog i roddi hanes mor ffafriol am eich sefyllfa...*

Yr hyn sydd yn ein taro ar unwaith wrth ddarllen y llythyrau hyn yw'r cyfarchiad *chi* pryd y disgwyliem weled *ti*.

Y mae'r adran ar lythyrau carwriaethol yn helaethach na'r lleill. Ceir yma lythyrau oddi wrth ŵr ifanc at ferch ifanc; gan ferch sy'n barod i dderbyn cyfarchion ac un arall yn gwrthod; llythyrau gan grefftwr, morwr a meddyg at eu cariadon gydag amryfal atebion; mae merch o Lanfyllin yn amau ei chariad o fod yn anffyddlon iddi,

*...ofer i chwi wadu na chymerasoch boen i gymhell eich human i sylw Miss Peacock...*

a gŵr ifanc o Abermaw yn ymwrthod â'i gariad,

*...Fy nyben yw eich hysbysu, madam, na fydd i mi byth mwyaich dalu ymveliad â chwi... yr oeddwn yn llygad-dyst o'ch ymddygiad gyda Mr Henly ddoe...*

a dymuna iddi anghofio fod y fath ddyd yn bod

*...a'ch gostyngedig was Andrew Ellis.*

\* \* \*

Mae'r pennawd 'Gwrthod Pendant' uwchben llythyr Nancy Bodkin o Fangor at George Staytape a'r rheswm yw,

*...nis gallaf yn wir eich hoffi gystal a Neddy Tabby, y stay-maker!*

Mae ergyd y llythyr hwn yn enwau'r llythyrwr a'r derbynnydd, sy'n ymwneud â'r



Hugh Humphreys.

grefft o wneud staes. Enw braidd yn chwthig yw Noddy Tabby, a gorffen y llythyr,

*...rhaid i chwi chwilio am eich Gwydd yn rhywle arall.*

Bu'n arfer ar un cyfnod i gyfeirio yn Saesneg at ferch ffôl fel *goose*; hwyrach y byddai iâr yn taro'n well yn Gymraeg! Mae'r llythyr hwn yn enghraifft o gyfieithu llythrennol ar ei waethaf.

O bob llythyr, credaf mai llythyr caru yw'r un anoddaf i'w gyfansoddi. Ond llythyrau caru pobl eraill sy'n peri mwyaf o ddifyrrwch i'r darllenwydd. Yng nghyfnod yr achosion llys *Breach of Promise*, pryd y gallai merch fynd â dyn o flaen ei well am beidio â chadw at ei addewid i'w phriodi, hunllef y gŵr ifanc fyddai clywed dyfynnu o'i lythyrau caru yn gyhoeddus. Felly yr oedd gofyn bod yn ofalus wrth eirio llythyr.

Daw achos Edward Jones yn Llundain yn ôl yn 1801 i'm cof, fel yr adroddir gan R.T. Jenkins a Helen Ramage yn *The History of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1951). Edward neu 'Ginshop' Jones oedd y gŵr a briododd wraig gefnog dros ei thrigain oed ac yntau wedi addo priodi merch ifanc 28 oed. Daeth hithau ag achos yn ei erbyn a bu raid iddo dalu dirwy o hanner canpunt. Gan ei fod yn Gyngorwr gyda'r Methodistiaid ac yn gofalu am ddiadell yn Wilderness Row (er gwaethaf y Gin shop!) cafodd aelodau Cymdeithas y Cymreigyddion Llundain fodd i fyw. Cyhoeddwyd llyfryn ganddynt yn adrodd yr hanes gan ddyfynnu'n helaeth o'r llythyrau caru a ddarllenwyd yn y llys. Cyfansoddodd Jac Glan-y-Gors faled faswedus, 'Gweno bach,' fel atodiad i'r llyfryn a gwerthwyd mil o gopïau.

Mae llythyr William Williams o Gaerdybi at ei gariad yn ei hysbysu iddo orffen ei brentisiaeth ac wedi

*...ymsefydlu gyda meist'r da, am 26s. yr wythnos o gyflog... y mae hyn, fy anwyl Betsi, yn ddigon i'n gwneud yn gysurus yn neillduol dan eich trefniad a'ch cynildeb chwi. Hyderaf... na bydd genych un gorthwymebiad i'm gwneud yn ddedwydd trefnydd ddyfod yn eiddo i mi...*

(Parhad ar dudalen 15)

**HUMPHREYS'**  
ENGLISH-WELSH  
**LETTER - WRITER.**

---

**LLYTHYRYDD**  
SAESONEG A CHYMRAEG

**H. HUMPHREYS:**  
YN GYSWYS

AMRYWIAETH O LLYTHYRAU TEULUOL, CYFEILLGAR,  
CARWRIAETHOL, A MASNACHOL;

HEFYD,

Cyngorodd helaeth o Starfianu Cytceithiol,  
Hysbysiadu, Cytarchiadu,

A RHYBUDDION A GYNGHORION ANGENRHEIDIOL  
EU GWYBOD.

---

GWRECHSAM:  
CYHOEDDIDIG OAS GROVE, BANK STREET.